17EG O ORFFENNAF

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol




## Wythnos yma

Mae'r wythnos olaf wedi cyrraedd ac mae wedi bod yn wythnos hynod o brysur arall! Wythnos yma, tro blwyddyn 2 a blwyddyn 4 oedd hi i gynnal sesiynau Dathlu Dysgu.

Roedd yn hyfryd gallu croesawu chi fel rheini mewn i'r ysgol ac roedd y plant wrth eu bodd yn rhannu gwaith y tymor.

Aeth Blwyddyn 5 a 6 yr wythnos hon ar drip i barc Fictoria ac aeth y dosbarth derbyn i Fferm Green Meadow. Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r gwibdeithiau yma.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sy'n rhan o deulu unigryw Ysgol Treganna. Diolch i chi rhieni, gwarchodwyr am eich cymorth a'ch cefnogaeth. Ni'n ffodus iawn ac yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad. Diolch i'r staff gweithgar a hyfryd sydd gennym yma yn yr ysgol. Mae ysgol Treganna yn le hapus iawn ac mae'r cydweithio a'r positifrwydd sydd rhwng y staff yn dyst o hynny. Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd cyson.

Ac yn olaf, diolch i'r disgyblion ARBENNIG sydd gyda ni yma yn yr ysgol. Heb os ac oni bai disgyblion gorau'r byd!

Mwynhewch wyliau'r haf a bydd yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Iau y 3ydd o Fedi.

## Calendr

**Diwrnodau HMS (dim ysgol i'r disgyblion)
01/09/26
02/09/26**

**Ysgol yn ail gychwyn i ddisgyblion
03/09/26**

## Dymuniadau gorau

Rydym yn dymuno pob lwc a phob hapusrwydd i Miss Mared Thomas a Miss Catrin Rees, sy'n dathlu eu priodasau dros yr haf.

Wrth iddynt gamu i bennod newydd a chyffrous yn eu bywydau, rydym yn anfon ein dymuniadau cynnes iddynt ar gyfer dyfodol llawn llawenydd.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu Mrs Trotman a Mrs O'Rourke yn ôl i'r ysgol ym mis Medi!

## Hwyl Fawr

Heddiw, rydym yn ffarwelio â sawl aelod gwerthfawr o'n staff. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd a llwyddiant i Mrs Julia Davage, Miss Abbie Lock, Mrs Mari Williams a Miss Catrin Jones, sy'n gadael yr ysgol heddiw.

Diolch o galon iddynt am eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'u gwaith caled dros ein disgyblion a'n cymuned ysgol. Maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd yr ysgol.

Rydym yn dymuno pob dymuniad da iddynt a byddwn yn eu colli yma yn ysgol Treganna.

## **Blwyddyn 6**

Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher fe wnaethom fwynhau gwasanaethau gadael gwych Blwyddyn 6! Diolch i Mrs Alaw, Miss Jones, Mr Passmore a Mr Collins am eu holl waith caled yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y gwasanaethau yma.
Mae wedi bod yn bleser llwyr i ddod i adnabod disgyblion blwyddyn 6 a'u gweld yn tyfu i fod yn ddisgyblion cwrtais a charedig. Mae'r ysgolion uwchradd fydd yn eu derbyn ym mis Medi yn ysgolion lwcus, lwcus iawn. Diolch i rieni Blwyddyn 6 am eich cefnogaeth a dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd yn ein gadael yr wythnos hon am y tro olaf.

## **Dyddiadau HMS y flwyddyn nesaf**

Dyma gadarnhad o ddyddiadau HMS y flwyddyn nesaf.

Dydd Mawrth 1.9.26
Dydd Mercher 2.9.26
Dydd Llun19.10.26
Dydd Llun 4.1.27
Dydd Llun 19.7.27
Dydd Mawrth 20.7.27

## **Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Ar ddiwedd blwyddyn arall, hoffem ddiolch i holl wirfoddolwyr y GRhA am eu gwaith caled.
Rydym yn hynod gyffrous am y flwyddyn sydd o'n blaenau a'r gwahanol ddigwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu.

Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am godi cymaint o arian i gymuned yr ysgol ac am gyfoethogi addysgu a dysgu holl blant yr ysgol.

Cofiwch fod croeso mawr i aelodau newydd ac i rieni newydd ymuno â'r GRhA. Bydd calendr o ddigwyddiadau'r GRhA ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.